**Comisiwn y Cynulliad**
**Assembly Commission**

## NAFWC 2007 (Papur 5A)

**Dosbarth Diogelwch (os bydd angen):** Dim
**Dyddiad:** Dydd Mercher 20 Mehefin 2007
**Amser:** 9.30-12.00
**Lleoliad:** Ystafell gynhadledd 22
**Enw'r awdur a rhif cysylltu:** Ian Summers, estyniad 1824

# CYLCH GORCHWYL I'R PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

**Diben a chrynodeb o'r materion**

1. Mae Comisiwn y Cynulliad wedi sefydlu Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol, nas penderfynwyd ar ei aelodaeth eto. Gofynnir i Gomisiwn y Cynulliad gadarnhau'r cylch gorchwyl arfaethedig.

**Argymhellion (gan gynnwys terfyn amser blaenoriaeth)**

2. Gofynnir i Gomisiwn y Cynulliad gadarnhau'r cylch gorchwyl arfaethedig. (atodiad 1).

**Trafodaeth**

3. Mae Comisiwn y Cynulliad wedi sefydlu Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol, nas penderfynwyd ar ei aelodaeth eto.

4. Cyflwynwyd papur Llywodraethu Corfforaethol a oedd yn cynnwys cylch gorchwyl ar gyfer y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol i'r Comisiwn Cysgodol ar 3 Hydref 2006. Addaswyd y papur i adlewyrchu'r arddull newydd ar gyfer cylch gorchwyl o'r fath fel ag y nodwyd yn y Llawlyfr Pwyllgor Archwilio diwygiedig. Gofynnir i Gomisiwn y Cynulliad gadarnhau'r cylch gorchwyl arfaethedig.

**Materion Llywodraethu**

**Goblygiadau ariannol**
5. Nid oes goblygiadau ariannol yn gysylltiedig â'r papur hwn.

**Asesu Risg**

6. Bydd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn cynorthwyo’r broses o reoli risg yn ei rôl fel ymgynghorydd i’r Comisiwn a’r Swyddog Cyfrifo ar y prosesau strategol ar gyfer risg.

**Cydymffurfiaeth**

7. Dogfen gydymffurfiaeth yw hon sy’n nodi rolau a chyfrifoldebau y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol.

**Atodiad 1**

**Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**CYLCH GORCHWYL AR GYFER Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL**

***Mae'r Comisiwn wedi sefydlu Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol i'w gynorthwyo yn ei gyfrifoldebau o ran materion rheoli risg a llywodraethu drwy adolygu pa mor gynhwysfawr yw'r sicrwydd o ran bodloni anghenion sicrwydd y Comisiwn a'r Swyddog Cyfrifo ac adolygu dibynadwyedd ac integredd y sicrwydd hwnnw.***

**AELODAETH**

Bydd aelodau o'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn cynnwys:

- Un Comisiynydd; a
- Dau ymgynghorydd annibynnol anweithredol—y bydd un ohonynt yn Gadeirydd.

Bydd yr Uned Gorfforaethol yn darparu'r ysgrifenyddiaeth i'r Pwyllgor.

**CYFLWYNO ADRODDIAD**

Bydd y Pwyllgor yn cyflwyno adroddiad ffurfiol ysgrifenedig i'r Comisiwn a'r Swyddog Cyfrifo ar ôl bob cyfarfod.

Bydd y Pwyllgor yn darparu Adroddiad Blynyddol i'r Comisiwn a'r Swyddog Cyfrifo, wedi ei amseru i gynorthwyo'r broses o orffen y cyfrifon a'r Datganiad ar Reolaeth Fewnol, yn cadarnhau ei gasgliadau o'r gwaith a wnaeth yn ystod y flwyddyn.

**CYFRIFOLDEBAU**

Bydd y Pwyllgor yn cynghori'r Comisiwn a'r Swyddog Cyfrifo ar:

- y prosesau strategol ar gyfer risg, rheoli a llywodraethu a'r Datganiad ar Reolaeth Fewnol;
- y polisïau cyfrifo, y cyfrifon, ac adroddiad blynyddol y Comisiwn, gan gynnwys y broses ar gyfer adolygu'r cyfrifon cyn eu cyflwyno i'w harchwilio, lefelau y camgymeriadau a nodwyd, a llythyr o sylwadau'r rheolwyr i'r Archwilydd Cyffredinol;
- y gweithgarwch arfaethedig a chynlaniadau'r archwiliad mewnol ac allanol;
- digonolrwydd ymateb y rheolwyr i faterion a nodwyd gan weithgarwch archwilio, yn cynnwys y llythyr rheoli archwilio allanol gan Swyddfa Archwilio Cymru;
- sicrwydd yn ymwneud â'r gofynion llywodraethu corfforaethol ar gyfer y Comisiwn;

- cynigion ar gyfer tendro ar gyfer gwasanaethau Archwiliad Mewnol neu ar gyfer prynu gwasanaethau nad ydynt yn wasanaethau archwilio gan gontractwyr sy'n darparu gwasanaethau archwilio;
- polisïau gwrth-dwyll, prosesau chwythu'r chwiban, a threfniadau ar gyfer ymchwiliadau arbennig;

Bydd y Pwyllgor hefyd yn adolygu ei effeithiolrwydd ei hun yn rheolaidd ac yn cyflwyno adroddiad ar ganlyniadau'r adolygiad hwnnw i'r Comisiwn.

**HAWLIAU**

Gall y Pwyllgor:

- gyfethol aelodau ychwanegol am gyfnod nad yw'n fwy na blwyddyn i ddarparu sgiliau arbenigol, gwybodaeth a phrofiad;
- prynu cyngor ad-hoc arbenigol ar draul y sefydliad, yn amodol ar gyllidebau y cytunir arnynt gan y Comisiwn.

**MYNEDIAD**

Bydd gan Bennaeth yr Archwiliad Mewnol a chynrychiolydd Swyddfa Archwilio Cymru fynediad am ddim a chyfrinachol i Gadeirydd y Pwyllgor.

**CYFARFODYDD**

Bydd y Pwyllgor yn cyfarfod o leiaf bedair gwaith y flwyddyn. Gall y Cadeirydd gynnull cyfarfodydd ychwanegol, fel yr ystyrir bod angen.

Rhaid i o leiaf ddau aelod o'r Pwyllgor fod yn bresennol er mwyn i'r pwyllgor gael ei ystyried â chworwm.

Mynychir y cyfarfodydd pwyllgor fel arfer gan y Swyddog Cyfrifo, y Prif Swyddog Gweithredu, Pennaeth yr Archwiliad Mewnol, a chynrychiolydd o Swyddfa Archwilio Cymru.

Gall y Pwyllgor ofyn i unrhyw swyddog arall fynychu i'w gynorthwyo gyda'i drafodaethau ar unrhyw fater arbennig.

Gall y Pwyllgor ofyn i unrhyw un neu'r cyfan o'r rhai sy'n arfer mynychu ond nad ydynt yn aelodau i adael yr ystafell er mwyn hwyluso trafodaeth agored a gonest o faterion arbennig.

Gall y Comisiwn neu'r Swyddog Archwilio ofyn i'r Pwyllgor gynnull cyfarfodydd pellach i drafod materion arbennig y mae arno angen cyngor y Pwyllgor arnynt.

**GOFYNION GWYBODAETH**

**Darperir y canlynol ar gyfer bob cyfarfod o'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol:**

- adroddiad yn crynhoi unrhyw newidiadau arwyddocaol i Gofrestr Risg y Comisiwn;

- adroddiad cynnydd gan Bennaeth yr Archwiliad Mewnol yn crynhoi:

  - gwaith a gyflawnwyd (o gymharu â'r gwaith a fwriedwyd);
  - materion allweddol yn deillio o waith yr Archwiliad Mewnol;
  - ymateb rheolwyr i'r argymhellion archwilio;
  - newidiadau i'r cynllun archwilio blynyddol;
  - materion adnoddau sy'n effeithio ar y gwaith o gyflawni cynllun yr Archwiliad Mewnol;

- adroddiad cynnydd gan gynrychiolydd Swyddfa Archwilio Cymru yn crynhoi'r gwaith a gyflawnwyd ac unrhyw ganfyddiadau sy'n deillio ohono.

**Fel ag y bo'n briodol, darperir y canlynol i'r Pwyllgor hefyd:**

- cynigion ar gyfer cylch gorchwyl yr Archwiliad Mewnol;
- Strategaeth yr Archwiliad Mewnol;
- Barn ac Adroddiad Blynyddol Pennaeth yr Archwiliad Mewnol;
- adroddiadau sicrwydd ansawdd ar swyddogaeth yr Archwiliad Mewnol;
- cyfrifon drafft y Comisiwn;
- y datganiad drafft ar Reolaeth Fewnol;
- adroddiad ar unrhyw newidiadau i'r polisïau cyfrifo;
- llythyr rheoli Swyddfa Archwilio Cymru;
- adroddiad ar unrhyw gynigion i dendro ar gyfer swyddogaethau archwilio;
- adroddiad ar y cydweithredu rhwng yr Archwiliad Mewnol ac Allanol.

*Mae'r rhestr uchod yn awgrymu'r gofynion lleiaf ar gyfer y mewnbynnau y dylid eu darparu i'r Pwyllgor. Mewn rhai achosion gellir darparu mwy ohonynt. Er enghraifft, gellir cytuno y dylid rhoi copi o bob adroddiad aseiniad yr Archwiliad Mewnol i aelodau'r Pwyllgor.*